

Byddwch yn barod am 'A Passion for Life'

Oherwydd y mae Ef wedi dirymu
marwolaeth, a dod â bywyd ac
anfarwoldeb i'r golau trwy'r Efengyl.
2 Tim 1:10

Beth yw 'Passion for Life'?

Menter i annog Cristnogion i gyhoeddi newyddion da Iesu Grist ym mhob cymuned a chenhedlaeth ar draws Cymru, y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

Ceisiwn gyflawni'r weledigaeth hon trwy:

- Magu hyder mewn efengyl Crist-ganolog sydd wedi ei wreiddio yn y Beibl.
- Annog, sbarduno a hyfforddi Cristnogion i efengyl.
- Ysgogi gweddi daer ac unedig dros ledaeniad yr efengyl.
- Dod ynghyd ar gyfer amseroedd penodol o ymgyrchu ar draws Cymru, y DU ac Iwerddon; gyda'r un nesaf ym Mhasg 2022.
- Ysbrydoli ein gilydd i ddatblygu baich cynyddol am gael ein defnyddio gan Dduw i arwain pobl i fywyd newydd yng Nghrist.

Cenhadaeth eglwys leol

- Ein dymuniad yw cyd-weithio â eglwysi lleol er mwyn cyhoeddi'r efengyl mewn ffyrdd priodol – nid creu un patrwm o genhadaeth ar gyfer pob sefyllfa yw'r bwriad.
- Rydym am annog Cristnogion i fynd ar daith ysbrydol gyda'r rhai sydd yn eu bywydau, i'w harwain at ffydd a bywyd yng Nghrist
- Gobeithiwn y bydd yr ymgyrch ym Mhasg 2022 yn sbardun i bobl i fyw bywydau o genhadaeth.
- Rydym yn awyddus i fagu cysylltiadau â phobl drwy'r wê – i'w galluogi i ymuno â chymuned leol o Gristnogion.

Partneriaeth Ranbarthol

- Mae mwy o ddoniau ac adnoddau efengyl, gweinyddu, arwain a thechnoleg mewn rhai eglwysi nag eraill.
- Sut felly gallwn ddatblygu partneriaethau o fewn rhanbarthau ... i hyfforddi ... i estyn allan gyda'n gilydd?

Adnoddau Cenedlaethol

- Bydd tîm canolog yn gweithio i baratoi adnoddau hyfforddi ac efengyl.

Pa adnoddau ac erbyn pryd*?

Chwefror – Gorffennaf 2021 – Podlediad, gweminarau, blogiau a phapurau trafod i helpu arweinwyr i asesu a datblygu efengyl yn ein heglwysi.

Awst – Rhagfyr 2021 – Adnoddau i hyfforddi aelodau ein heglwysi i fynd ar daith ysbrydol gyda'u cysylltiadau.

Ionawr – Chwefror 2022 – Cynllunio terfynol a chodi ymwybyddiaeth yn y cyfryngau cymdeithasol.

Mawrth – Pasg 2022 – Mis yr Ymgyrch.

Sut fydd mis yr ymgyrch yn edrych yn fy eglwys?

Mae pob eglwys yn wahanol o ran cyd-destun, adnoddau, doniau a gweledigaeth.

Ystyriwch y ddau gwestiwn canlynol:

- Ym mha ffyrdd y gall efengyl yn fy eglwys ddatblygu yn ystod y flwyddyn nesaf?
- Sut allwn annog pob Cristion i fynd ar daith ysbrydol gyda'u cysylltiadau?

Efallai bydd rhai eglwysi yn penderfynu lleihau gweithgarwch er mwyn annog aelodau i ddangos lletygarwch a charedigrwyd i'w cymdogion.

Efallai y bydd eraill yn penderfynu cyd-weithio ag eglwysi eraill yn yr ardal i gynnal cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus.

Nid oes un patrwm. Yn syml, rydym eisiau tyfu trwy ddysgu o'n gilydd ac o'r Arglwydd. Byddwn yn gwneud hyn gyda'n gilydd - ar draws Cymru, y DU ac Iwerddon. Mynegiad unedig o Gomisiwn Mawr yr Arglwydd.

A wnewch chi sefyll gyda ni?

apassionforlife.org.uk/get-involved